

# RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd yn rhithiol ar ddydd Mawrth, 9 Chwefror 2021

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd), Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg)(Is-gadeirydd), Cynghorwyr John Griffith, G.O. Jones, R. Llewelyn Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts.

**Wrth Law:** Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP), Prif Archwilydd (NW), Rheolwr Masnachol Hamdden (GR) (ar gyfer eitem 8), Swyddog Pwyllgor (ATH).

**Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Richard Griffiths, Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr), Mr Dylan Williams (Dirprwy Brif Weithredwr)

**Hefyd yn Bresennol:** Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Mr Alan Hughes (Archwilio Cymru), Uwch Archwilydd (NR), Uwch Archwilydd (BJ), Pennaeth Gwasanaethau Democraidd (JHJ), Mr Gareth Wyn Williams, Gohebydd Democratiaeth Leol.

(2:00 p.m. - 4:40 p.m.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>3 Aelod Lleyg Newydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</b> Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor newid y Cyfansoddiad er mwyn lleihau nifer yr aelodau lleyg sydd eu hangen ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o ddau aelod lleyg i un aelod lleyg tan y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn dod i rym.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>4 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol</b>
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>5 Cyngor Sir Ynys Môn - Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2020</b> Adroddiad gan Archwilio Allanol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn y Crynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer 2020 ac i nodi'r cynnwys.  NI CHAFWYD UNRHYW GYNIGION AM UNRHYW WEITHREDOEDD ERAILL.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>6 Diweddariad ar Strategaeth a Blaenoriaethau Archwilio Mewnol 2020/21</b> Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r ddarpariaeth sicrwydd Archwilio mewnol a'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.  NI CHAFWYD UNRHYW GYNIGION AM UNRHYW WEITHREDOEDD ERAILL.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>7 Darpariaeth Sicrwydd Archwilio Mewnol 2020/21</b> Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd – <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer sicrhau y bydd gan y Pennaeth Archwilio a Risg sicrwydd digonol i gefnogi'r Farn Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21, a</li> <li>• Nodi na fydd unrhyw gyfyngiad ar sgôp</li> </ul> NI CHAFWYD UNRHYW GYNIGION AM UNRHYW WEITHREDOEDD ERAILL.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>8 Cyflawni â Llai - Gwasanaethau Hamdden Cyngor Sir Ynys Môn</b> Adroddiad gan Archwilio Allanol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.  NI CHAFWYD UNRHYW GYNIGION AM UNRHYW WEITHREDOEDD ERAILL.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>9 Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/2022</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd – <ul style="list-style-type: none"> <li>• Derbyn y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22 a'i gyfeirio i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ei gymeradwyo.</li> <li>• Nodi'r cynnydd yn y terfynau trafodion yn Atodiad 8 yr adroddiad.</li> </ul>

	NI CHAFWYD UNRHYW GYNIGION AM UNRHYW WEITHREDOEDD ERAILL.
--	---

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>10 Siatr Archwilio Mewnol</b> Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r adolygiad a chymeradwyo priodoldeb parhaus y Siatr Archwilio Mewnol.  NI CHAFWYD UNRHYW GYNIGION AM UNRHYW WEITHREDOEDD ERAILL.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>11 Blaen Raglen Waith</b> Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn y Blaen Raglen Waith heb unrhyw newidiadau.